RHONDDA CYNON TAF




# PARC GWLEDIG CWM DÂR

## GOSOD SYSTEM SOLAR FFOTOFOLATÄIG

*Wedi'i darparu gan Garfan Lleihau Ynni a Charbon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Gorffennaf 2024*

Cwblhawyd y gwaith o ailosod y system ffotofoltaidd (PV) 15kWp ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, Aberdâr, ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r hen baneli solar wedi'u rhoi mewn storfa a byddan nhw'n cael eu rhoddi i brosiectau yn y gymuned yn y dyfodol. Mae'r gosodiad solar yn cynhyrchu trydan o olau dydd ac yn cyflenwi system drydanol y safle, gan ddisodli'r trydan sy'n cael ei fewnforio a'i gyflenwi o'r grid cenedlaethol. Mae hyn yn arbed y Cyngor arian ar gostau trydan.

Mae data yn dangos bod y prosiect yma wedi arbed 11,615 kWh yn ystod blwyddyn ariannol 2023 – 2024, sy'n cyfateb i £4,065 ar filiau ynni blynyddol (yn seiliedig ar gostau 2024). Bydd y newid yma'n parhau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor 4.5 tunnell y flwyddyn, gan helpu'r Cyngor i symud tuag at ei darged o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

**ARBEDION**
**11,615 kWh**
**Y FLWYDDYN**

**DYNA**
**4.5 TUNNELL**
**O $CO_2$**

**ARBEDION**
**£4,065**
**Y FLWYDDYN**

CYSYLLTWCH Â NI Ynni@rctcbc.gov.uk